tafod elái

CHWEFROR 2016

Rhif 304

Pris 80c

Cariad@yrUrdd

Plant Ysgol Castellau yn cefnogi Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017 ar 22 Ionawr gan wisgo lliwiau coch, gwyn a gwyrdd.

Yn Ysgol Tonyrefail hefyd newidiwyd lliw gwisg yr ysgol i goch, gwyn a gwyrdd i ddathlu diwrnod Cariad@yrUrdd - i godi ymwybyddiaeth o Eisteddfod Yr Urdd Pen y Bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017. Daeth Mr Urdd ei hun i ddweud helo.

Capel Tabernacl Efail Isaf ar ei newydd wedd diwedd mis Ionawr gyda chadeiriau newydd ac wedi ei ail-addurno.

Côr yr Einion yng Ngŵyl Coed Nadolig Eglwys Llantrisant

Parti'r Efail yn y Plygain ym Mhentyrch

RALI MILIWN O SIARADWYR CYMRAEG

ADDYSG GYMRAEG I BAWB!

1pm, Dydd Sadwrn, 13 Chwefror 2016
Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd

Dyma gyfle i ddathlu'r Gymraeg a'i phwysigrwydd i bawb yn y wlad. Dewch i godi llais am ein hiaith genedlaethol cyn y gêm rygbi rhwng Cymru a'r Alban ac i roi'r Gymraeg ar yr agenda cyn etholiadau'r Cynulliad.

cymdeithas.cymru

Ysgol Gynradd Evan James

Ymweliadau
Aeth blynyddoedd 5 a 6 ar wibdaith i 'Hampton Court' i ddysgu am fywyd y Tuduriaid.

Mwynheuodd blynyddoedd 5 a 6 berfformiad campus o Shrek yng Nghanolfan y Mileniwm.
Roedd dosbarth Sali Mali yn gyffrous iawn i fynd i Aberdâr ym mis Rhagfyr i weld Siôn Corn.
Cafodd dosbarth Sali Mali briodas draw yn Eglwys Santes Catherine gyda ficer Peter Lewis a gyda help Nel Withey. Priododd Jake a Lily gyda'r morynion i gyd yn edrych yn hyfryd.

Llwyddiannau
Llongyfarchiadau i Amelia Hughes am ddod yn 4ydd mewn Pencampwriaeth Genedlaethol Dawnsio.
Da iawn Rhys Blow am ennill y fedal efydd yn yr 800m ym Mhencampwriaeth Athletau De Cymru.

Ymwelwyr
Daeth 'Into Film' i weithio gyda dosbarth Pwyll a Rhiannon i greu ffilm i ddathlu 150 mlwyddiant sefydlu'r wladfa ym Mhatagonia!
Daeth tad Samuel Williams, Mr Williams i ymweld â phlant blynyddoedd 5 a 6 i drafod hanes y Tuduriaid.
Daeth addurnwraig gacennau proffesiynol i helpu'r plant yn nosbarth Sali Mali i greu cacen penigamp.
Daeth Tony Tesco o archfarchnad Tesco i'r ysgol i bobi bara gyda blynyddoedd 1 a 2 ac fe aeth pawb ar ymweliad i'r popty yn Tesco.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Casglwyd £219.42 tuag at Eisteddfod yr Urdd 2017. Diolch i bawb am wisgo coch, gwyn a gwyrdd ddydd Gwener yr 22ain i gefnogi'r Urdd!

Ymwelwyr Bangladesh a'r cor

Pêl-rwyd – Gan Mali Fflur Williams
Dydd Iau y 14eg o Ionawr fe aeth Mrs.Rogers gyda 10 o ferched blwyddyn 5 a 6 i Ganolfan Hamdden Rhondda Fach. Fe aethom ni gyd mewn bws mini Edwards. Roedd yn daith o tua hanner awr a phan gwnaethon ni gyraedd roedd yn wyntog ac yn oer. Roedd gyda ni ffrogiau a sgertiau coch ar gyfer y pêl rhwyd . Fe chwaraeon ni lawer o gemau enillon ni ddau, colli un a roedden ni yn gyfartal am y gweddill. Chwaeraeon ni yn erbyn ysgolion eraill oedd yn cynnwys Llantrisant a Chastellau. Ni enillon ni'r twrnament ond fe gafodd y merched a fi lawer o hwyl yn cymryd rhan. Rydym ni yn edrych ymlaen at ein gêm nesaf.

Dyma luniau o flwyddyn 1 a 2 gyda Tesco Tony ar ein trip i Tesco

Ysgol Gwaelod y Garth

Llongyfarchiadau i Milly Ivins, Blwyddyn 6, ar ennill cystadleuaeth Ysgolion Yn Erbyn Hiliaeth. Mae llun Milly yn cynrychioli mis Ionawr ac i'w weld ar ffurf poster o amgylch y ddinas. Enillodd siec o £150 i'r ysgol ac mae wedi dewis ei wario ar byst pêl-rwyd newydd. Diolch Milly!

Cafodd côr Ysgol Gwaelod y Garth y pleser o berfformio mewn cyngerdd er budd Welsh Hearts Calonnau Cymru yn Eglwys Dewi Sant. Fe berfformiodd y plant yn wych gan rannu llwyfan gyda Trystan Llŷr Griffiths, Ellen Williams, Cor Abercynon ac Ysgol Glantaf. Da iawn chi blantos a diolch yn fawr i Mrs Price am hyfforddi'r côr.

Mae Band Pres Ysgol Gwaelod y Garth yn mynd o nerth o nerth a'n ymarfer yn wythnosol yn yr ysgol o dan ofal Mat, yr athro pres. Cawson nhw'r cyfle i berfformio ddwywaith dros gyfnod y Nadolig – yng nghyngerdd Nadolig yr Adran Iau yng Nghapel Bethlehem ac yn Ffair Nadolig yr ysgol.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Llongyfarch yr efeilliaid!
Hwyr eto yn ôl f'arfer ond llongyfarchiadau gwresog Dafydd a Seth (Griffiths) ar ennill graddau gwych nôl yn yr haf. Yn Abertawe bu Dafydd yn dilyn cwrs Daearyddiaeth ac enillodd radd B.Sc. 2i. Da iawn ti, was! Ar hyn o bryd mae'n ennill pres yn y Vale tra'n cynllunio patrwm ar gyfer y dyfodol. Seth wedyn - dilynodd e gwrs Electroneg ym Mhrifysgol De Cymru gan arbenigo ar yr ochr oleuo. Yntau hefyd yn sicrhau gradd B.Sc. 2i. Ond yn deg a chithau'n fêts ac yn efeilliaid! Bellach mae Seth yn dilyn gyrfa hynod ddiddorol. Llundain yw ei gartref ond mae'n teithio Prydain a thu hwnt yn rhinwedd ei swydd fel arbenigwr goleuo/ lasar i rai o fandiau roc mwya'r wlad. Yn ddiweddar bu ar daith gyda *Mumford and Sons* a hefyd *Kasabian*! Pob lwc eich dau yn eich priod feysydd - byddwn yn dilyn eich gyrfaoedd gyda diddordeb!

Eryl balch a'i chwaer fach ciwt, Nansi!

Un bach arall i'r 'clan'!
Llongyfarchion Fiona (MacDonald) a Rhodri Jones - y Bontfaen - ar enedigaeth Nansi, ar yr ail ar bymtheg o Dachwedd. Chwaer fach newydd sbon i Eryl ydy Nansi - a bydd e'n gariad o frawd mawr 'dw i'n siwr. Pob bendith!

Gwellhad buan ...
... i Gareth Jenkins, Ffordd Caerdydd sy' wedi profi cyfnod anodd iawn yn ddiweddar. Treuliodd rai misoedd yr Ysbyty'r Waun yn derbyn triniaeth go egar. Gobeithio gyda dyfodiad y gwanwyn y gwnaiff fwynhau gwell iechyd. Yn meddwl amdanoch fel teulu.

Croeso i'r byd ...

..Mostyn Dyfrig! Cafodd Mostyn ei eni ar y degfed ar hugain o Ragfyr yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd! Mae'n frawd bach i Eirwen Catrin ac yn fachgen bach i Nerys Tullis (Lewis gynt) a'i gŵr Ben. Mae Nerys yn gweithio fel meddyg yn y DILA, Abertawe a Ben yn gweithio ym maes Technoleg Gwybodaeth. Maent yn byw yn yr Eglwys Newydd. Pob bendith deulu bach.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Panto
Ar y pymthegfed o Ionawr fe aeth dros 200 o ddisgyblion a staff i weld panto Cwmni Mega, "Melltith y Brenin Lludd" yn Neuadd Goffa'r Barri. Roedd hi'n amlwg fod pawb wedi mwynhau'n fawr yn ôl sŵn y chwerthin a'r gweiddi!

Beicio

Yn ystod mis Ionawr, daeth criw o aseswyr beicio o Hyfforddiant Beicio Cymru i'r ysgol i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 tuag at dystysgrif beicio lefel 2 - llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran.

Gweithdy gwrth-hiliaeth
Ar Ionawr yr 22ain, fe gafodd disgyblion Dosbarth 10 gymryd rhan mewn gweithdy "Dangoswch y cerdyn coch i hiliaeth" a drefnwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Yn ystod y gweithdy rhyngweithiol hwn, fe ddysgodd y disgyblion am achosion a chanlyniadau hiliaeth, pa mor bwysig yw hi i barchu gwahaniaethau a sut i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Chwaraeon
Dydd Iau y 14eg o Ionawr, fe aeth criw o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i gystadleuaeth bêl-rwyd yr Urdd yng Nghanolfan y Rhondda Fach. Rhanwyd y disgyblion yn ddau dîm, gyda phob tîm yn chwarae saith gêm. Enillwyd tair o'r gemau, cafwyd pedair gêm gyfarfal a collwyd saith gêm. Ond roedd pawb wedi cael amser gwych yn chwarae a mwynhau'r awyrgylch. Diolch i'r Urdd am drefnu.

Da iawn hefyd i dîm pêl-droed bechgyn YGGG Llantrisant fu'n chwarae yn nhwrnament New Directions ar gaeau Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd. Llwyddodd y bechgyn i ddod yn gyntaf yn eu grŵp, ac maent nawr drwyddo i'r gemau terfynol ar y 28ain o Ionawr.

Hefyd bu'r tîm rygbi yn chwarae yn nhwrnament Urdd 7s ddydd Iau yr 21ain o Ionawr. Nhw oedd enillwyr y rhanbarth ac mi fyddan nhw nawr yn teithio i Aberystwyth ym mis Mai er mwyn cystadlu yn y rownd derfynol. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Merched y Wawr - 'Croesbwytho ac ati'

Yng nghyfarfod mis Ionawr cawsom ein diddanu a'n haddysgu gan Loreen Williams - a Carey - mewn noson hynod ddifyr a hwyliog. Mae Loreen yn aelod selog a gweithgar o'n Cangen ers blynyddoedd a dyna braf oedd cael ei chroesawu i'n plith fel gwraig wadd! Dechreuodd trwy sôn am darddiad y cariad angerddol sydd ganddi at groesbwytho. Dangosodd ddarnau o'i gwaith cynnar - megis y 'dressing table set' bondigrywbwyll! Cofio nhw?! A darn o waith gafodd gam mawr mewn cystadleuaeth gynnar - oherwydd ei fod yn 'rhy berffaith' ac yn 'ymdebygu i waith gan gyfrifiadur'! Gwyddom ers yn gynnar am safonau uchel Loreen!

Gwelsom ddarnau o waith godidog - barddoniaeth, mapiau o Gymru ac o siroedd arwyddocaol i Carey a Loreen, y cyfan mewn croesbwyth cywrain. Dangoswyd y cyfan yn broffesiynol tu hwnt gan Carey oedd yn sicir yn ymfalchio yn y gweithiau hardd. Cydnabyddodd Loreen ei diolch i Marian Evans am ei chyngor parod a'i hysbrydoliaeth. Rhoddodd ni ferched ar waith wedyn - gan ein harwain i greu bathodyn yr Urdd wedi'i groesbwytho! Wel - dyna hwyl a gafwyd! Sawl bathodyn gorffenedig sy' o gwmpas - 'dw i ddim yn siwr! Ond diolch o galon Loreen a Carey am noson gartrefol, llawn hwyl. A diolch fwyfwy am gynnig tair gwobr raffl hollol unigryw - sef cardiau at achlysuron arbennig wedi eu croesbwytho gan Loreen. A phwy 'ddyliech chi enillodd? Wel, Rhiannon Llewelyn, Eifiona H a Morfudd H! Genod lwcus! Mis nesa - cyfarfod yn y Ganolfan, nos Fercher, Chwefror y 10fed am 8 yr hwyr.

Merched y Wawr Cangen y Garth aeth am De Prynhawn a thaith o gwmpas Tŷ Tredegar ar Rhagfyr 9ed

Guto Emlyn, mab Elin a Hywel Roberts (Tudalen 9)

Rhai o gerddwyr Calan Pwyllgor Apêl Tonyrefail (Tudalen 10)

Ysgol Uwchradd Pontypridd (Tudalen 9)

Ymweliad gan Dr Gina Morgan

Cinio Nadolig y Pensiynwyr

Trip i Techniquest Ysgol Tonyrefail (tudalen 7)

Gary Samuel yn cyflwyno siec oddi wrth Côr Hen Nodiant i gynrychiolydd Canolfan Canser Felindre

Carey Williams, Efail Isaf

Côr yr Einion

Cafwyd noson arbennig yn Y Ship ar nos Iau Rhagfyr 10. Dyma'r bobol a ennillodd yr hamperi sbesial!

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Bethan a Dyfan Rose, Waun Hir, ar enedigaeth merch fach. Mae Lleucu wedi dotio ar ei chwaer fach, Carys Mair.

Llongyfarchiadau hefyd i Ann Dixey hefyd a hithau'n fam-gu am y tro cyntaf. Ganwyd William Sidni i Enfys a Siôn Griffiths noswyl Nadolig.

Dymuniadau Da
Dymunwn adferiad buan i Arthur Garnon, Heol y Ffynnon a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty dridiau cyn y Nadolig yn derbyn clun newydd.

Croeso i'r Pentref
Croeso i deulu bach arall o Gymry i'r pentref. Mae Andy a Louise Davies a'i mab bach Joey wedi symud i Barc Nant Celyn. Mae Louise, sydd yn ddeintydd yn Llanilltud Faerdref yn enedigol o Fancffosfelen ac Andy sydd yn geiropractydd yn hanu o Gaerdydd. Croeso i'r pentref.

Côr yr Einion
Bu'n gyfnod prysur i Gôr yr Einion yn arwain i fyny i Ŵyl y Nadolig. Canodd y Côr yng Ngŵyl Grefftau a Ffair Nadolig Garth Olwg ddiwedd mis Tachwedd. Y Sadwrn canlynol roedd aelodau'r Côr wrth eu boddau i gael eu gwahodd yn ôl i Ŵyl y Coed Nadolig yn Eglwys Llantrisant. Yn anffodus roedd Siân Griffiths, ein harweinydd yn anhwylus ac mi gamodd Llinos Swain i'r adwy. Mae Siân lawer yn well erbyn hyn ac wedi ail-gydio yn y gwaith gyda'i brwdfrydedd arferol. Syfrdanwyd holl aelodau'r Côr o glywed fod un o'n haelodau, Siân Jones (Sian Pens) wedi bod yn ddifrifol wael cyn y Nadolig, ond y newyddion gwych yw bod Siân wedi gwella ac yn ôl yn ein plith gyda'i gwên afieithus.

Trueni i'r ddwy Sian golli ein cinio blynyddol yn Nhafarn y Ship nos Iau, Rhagfyr 10fed. Cyn cymryd egwyl dros wyliau'r Nadolig bu aelodau'r côr yn diddanu preswylwyr Cartref Penrhos ar nos Iau, Rhagfyr 17eg.

Daeth y Côr ynghyd ddechrau'r flwyddyn newydd i ganu yng Ngwasanaeth y Plygain yn Eglwys Pentyrch. Croeso i aelodau newydd i ymuno â'r Côr. Mae'r ymarferion yng Nghanolfan y Tabernacl bob nos Iau, am chwarter wedi saith o'r gloch.

Y Tabernacl

Diwedd Cyfnod
Daeth cyfnod nodedig iawn i ben yn hanes Capel y Tabernacl wrth i Carey a Loreen ymddeol o'u dyletswyddau ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd Carey yn cwblhau deugain mlynedd o wasanaeth disglair ar yr organ, a'i gyfraniad wedi cyfoethogi pob oedfa dros y degawdau. Roedd hefyd wedi rhoi blynyddoedd ffyddlon i'r gwaith o fod yn ysgrifennydd yr eglwys yn ei dro. Bu cyfraniad Loreen yr un mor loyw mewn ffordd wahanol, yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd, ac yna'n gyfrifol am baratoi cardiau pen-blwydd i'r plant bach bob Sul. Eu dymuniad oedd peidio cael eu hanrhegu, a pheidio cael ffys, a bu'n rhaid i'w cyd-aelodau barchu hynny, er yn gyndyn iawn. Mae dyled y capel yn enfawr iddyn nhw'u dau am bopeth.

Aelodau Newydd
Yn yr Oedfa Gymun ddechrau'r flwyddyn derbyniwyd Arwyn a Sheila Jones yn aelodau yn y Tabernacl. Mae Arwyn yn enedigol o Lanfyllin a Sheila yn hanu o Aberporth. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llanharan. Croeso cynnes i chi eich dau i'r Tabernacl.

Pen-blwydd arbennig
Mae un o aelodau'r Tabernacl wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis. Roedd Mrs Margaret Jones, cwrt Faenor, Y Beddau (mam Pens) yn 90 oed ar Ionawr 7fed. Llongyfarchiadau gwresog i chi.

Cyfarwyddwyr y Tabernacl
Dymunwn yn dda i Wendy Reynolds ar gael ei phenodi'n gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Y Tabernacl. Penodwyd pedair aelod newydd i ymuno â'r bwrdd sef Margaret Pritchard Copley, Rhiannon Humphreys, Sian Elin Jones a Gwerfyl Morse.

Ail-agor y Capel
Erbyn y daw'r rhifyn yma o Tafod Elái o'r wasg mae'n debyg y byddwn wedi medru symud yn ôl i gynnal ein hoedfaon yn y capel. Cafodd yr adeiladwyr dywydd difrifol o wael yn ystod atgyweirio'r adeilad, ond mae pawb erbyn hyn yn ysu am gael gweld y capel ar ei newydd wedd.

Gweithgareddau'r Nadolig
Gan nad oedd yn bosibl defnyddio'r Capel adeg y Nadolig cynhaliwyd Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a Theulu Twm yn y Theatr yng Ngarth Olwg. Roedd yn brofiad da i'r plant gael perfformio ar lwyfan theatr a chawsom oedfa hyfryd. Bu'n rhaid cynnal Gwasanaeth Noswyl y Nadolig yn Neuadd y Pentref. Geraint Rees fu'n llywyddu a chafwyd Oedfa gofiadwy arall a chyfle i bawb gyfarch ei gilydd ar fore Dydd Nadolig.

Elusennau
Dosbarthwyd hamperi Nadolig i'r bobl ifanc sydd newydd adael gofal y gwasanaeth Cymdeithasol ac wedi dechrau byw'n annibynnol. Cyfrannwyd hefyd i amryw o elusennau yn cynnwys banc Bwyd Pontyclun, Operation Christmas Child, Masnach Deg a Cymorth Cristnogol yn ystod y flwyddyn. Yr elusennau a ddewiswyd gan y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am 2015 oedd Ymchwil Canser Cymru, Cymdeithas Clefyd Alzheimer, Gofalwyr Ifanc a Childline Cymru.

Cerddorion Newydd
Gan fod Carey wedi penderfynu rhoi'r gorau i ganu'r organ yn yr Oedfaon ddiwedd mis Rhagfyr, mae Sian Elin wedi ymgymryd â threfnu tîm o gerddorion i gyfeilio. Cewch ddewis eich offeryn gan mae'r bwriad yw creu grwpiau o gerddorion brwdfrydig i gyfeilio i'r canu. Cysylltwch â Siân os oes gennych dalentau cudd!

Merched y Tabernacl
Daeth nifer dda iawn ynghyd i Fwyty Nant y Cesair, (neu'r Caesar's i roi iddo ei enw poblogaidd) ddydd Mawrth, Ionawr 19eg i fwynhau cinio canol dydd. Mae'n arfer gennym redeg raffl ymhob cyfarfod gan drosglwyddo'r arian i achosion da lleol. Rydym newydd gyflwyno £100 i Uned y Galon, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac roedd y llawfeddyg Gethin Ellis yn hynod o ddiolchgar am y rhodd.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd ddydd Mercher, Chwefror 10fed i wrando ar Gerddorfa a Chôr Siambr y Coleg yn perfformio gwaith Beethoven. Cyfarfod am hanner dydd am fyrbryd yn y caffi.

Trefn yr Oedfaon
Chwefror 7fed Y Parchedig Gethin Rhys
Chwefror 14eg Y Parchedig Aled Edwards
Chwefror 21ain Oedfa deuluol o dan ofal Dafydd a Lowri
Chwefror 28ain Dathliad Dydd Gŵyl Dewi

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Chwefror 2016:
7 Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
14 Oedfa Ardal
21 Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
28 Gwasanaeth Gwyl Ddewi
Mis Mawrth 2016:
1 Cwrdd Gweddi Dewi Sant (9:30 a.m.)
6 Oedfa dan ofal y Parchedig Glyn Tudwal Jones
13 Oedfa Ardal
20 Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
27 Oedfa dan ofal y Parchedig Peter Dewi Richards

ooooOOOOoooo

Paham tybed fy mod yn ei chael yn anodd meddwl am unrhyw beth i'w sgrifennu fel hyn ar ddechrau blwyddyn newydd?

Ydi tynnu'r addurniadau Nadolig a'u cadw am flwyddyn gron arall yn dasg bleserus neu'n fwrn ar hyd yn oed y cryfaf ohonom?

Ydi dechrau blwyddyn newydd yn codi'r felan arnom, neu ydi hi yn dod a llu o gyfleoedd na chafwyd mohonynt yn y flwyddyn sydd newydd ddod i ben?

Ydan ni wedi bod yn gwaredu rhag wynebu tymor arall o'r un hen bethau neu a ydy gweld y dydd yn ymestyn yn ara' bach yn rhoi i ni'r brwdfrydedd fu'n hepian dros fisoedd tywyll y gaeaf?

Sut bynnag mae hi arnoch chi, ystyriwch hyn:-

Yn ol adroddiad ("Wealth: Having It All and Wanting More,") a gyhoeddwyd gan Oxfam ym mis Ionawr eleni, bydd yr 1% cyfoethocaf yn y byd a mwy o gyfoeth na'r 99% sy'n weddill. Mae'r gofod rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn ymledu o eiliad i eiliad.

Erbyn hyn mae yr 80 unigolyn cyfoethocaf yn y byd (sy'n cynrychioli 0.000001% o boblogaeth y byd) yn berchen ar yr un faint o gyfoeth a 50% o boblogaeth tlotaf y byd.

Neu a'i roi mewn ffordd arall, mae 3.5 biliwn o boblogaeth tlotaf y byd yn rhannu rhyngddynt yr hyn sy'n olud i'r 80 cyfoethocaf (rhyw $1.9 triliwn). [Yn 2010 'roedd angen 388 biliwnydd i gadw'r glorian yn wastad!]

Mae cyfartaledd cyfoeth y pen ymysg yr 80 cyfoethocaf yn $23.7 biliwn, tra bod y 3.5 biliwn tlotaf a chyfartaledd y pen o $540.

A'i dyma'r byd y deisyfwn yn 2016 a thu hwnt?

Lle ydan ni ar y sbectrwm cyfoeth o'i gymharu a'r tlodion yn ein byd, a beth a allwn ni ei wneud yn y misoedd nesaf yma i fod o gymorth i'n brodyr a'n chwiorydd yn rhanbarthau tlotaf ein planed?

Ydi'r felan arnoch o hyd, neu a ydi'r ystadegau moel yma wedi bod yn ddigon i'ch hysgwyd chi o'ch cadair gysurus ger tanllwyth o dan ynghanol eich moethusrwydd a'ch digonedd?

Braf ein byd yn wir, ond brafiach petaem yn addunedu i gwyno llai a rhoi'n hysgwydd dan faich ein cyd-ddyn i liniaru peth ar eu taith hwythau yn ystod y flwyddyn newydd hon.

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

TONTEG

Gohebydd Lleol:
Gillian Williams

Cydymdeimlo
Bu'r wythnosau cyn y Nadolig yn gyfnod o alar i nifer o deuluoedd Tonteg a Phentre'r Eglwys. Cydymdeimlwn â nhw i gyd yn eu profedigaeth.

Collodd Petra a Karen Davies eu tad Keith, fu farw ar Dachwedd y pedwerydd ar hugain. Bu Keith yn brif arolygydd gyda heddlu De Cymru cyn ymddeol, Estynnwn gydymdeimlad i'r merched, eu teuluoedd ac i'w gymar Linda.

Ar ddechrau mis Rhagfyr collodd David Tomlinson ei frwydr yn erbyn canser. Gwr Marilyn, cyn brif athrawes ysgol gynradd Gartholwg oedd David, tad a thad yng nghyfraith annwyl i Huw a Julia. Cymdeimlwn yn ddwys â nhw.

Wedi salwch gymharol fyr bu farw Barbara Norris "Wellfield" Church Road Tonteg. Roedd Barbara wedi ymddeol o'i gwaith fel nyrs y practis yn Nhonysguboriau. Cydymdeimlwn â John ei gwr a'r plant Eryl ac Arwyn a fu'n ddisgyblion yn Gartholwg a Llanhari.

Dymuniadau Gorau
Braf iawn yw gweld Sian (Pens) Jones yng nghanol popeth unwaith eto ar ôl cyfnod byr yn yr ysbyty cyn y Nadolig. Dymunwn yn dda i ti wrth i ti wella.

Dymuniadau gore hefyd i Dewi a Lea Rees a'u merch fach Eiry Gwen yn eu cartre newydd ym Mhentre'r Eglwys.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Cawsom gwmni'r Ddr. Ellen Evans i agor ein rhaglen eleni ar 18 Ionawr gan draethu ar y testun, 'Ymchwil Hylendid Bwyd yn y Ganolfan Diwydiant Bwyd'. Magwyd Ellen yn Sir Fôn lle bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llangoed ac Ysgol Uwchradd David Hughes. Gydag ysfa i fod yn *Chef* gadawodd addysg uwchradd yn 16 oed a chychwyn ar gwrs galwedigaethol, ond cyn pen dim o amser fe'i denwyd gan wyddoniaeth bwydydd, yn enwedig y prosesau o hybu hylendid bwyd yn y diwydiant cynhyrchu a masnachu. Dilynodd gwrs gradd yng Nghaerdyydd ac aros i ennill doethuriaeth yn dilyn ymchwil ar ddiogelwch bwyd yn y cartref. Ar hyn o bryd mae'n gydymaith ymchwil yng Nghanolfan Diwydiant Bwyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Prif waith y ganolfan yw cynnal ymchwil, cynnig addysg a dal cysylltiadau gyda'r diwydiant bwyd yng Nghymru, gyda phwyslais ar faterion diogelwch bwyd a materion iechyd cyfatebol.

Clywsom am ymchwil diweddar Ellen yn ymwneud â listeriosis mewn pobl dros 60 oed, haint sy ar gynnydd yn rhyngwladol, yn rhannol oherwydd gwerthiant bwyd parod-i'w-fwyta. Mae'r gegin gartref yn lleoliad sy'n gysylltiedig â salwch a gludir gan fwyd. Mae'n bwysig iawn i bobl weithredu arferion da er mwyn lleihau risg, yn enwedig ymhlith unigolion bregus. Bu'r ymchwil yn cynnwys ymweliadau gydag unigolion a theuluoedd yn eu cartrefi yng Nghaerdydd er mwyn cofnodi ymddygiad ac arferion pobl, yn enwedig yng nghyd –destun storio bwyd. Un sylw a wnaed oedd bod llawer o bobl hŷn yn aml yn llac eu harferion, er enghraifft, cadw golwg ar dymheredd oergell a dyddiadau ar bacedi bwyd, gyda'r canlyniad bod risg uwch o listeria'n taro.

Cafwyd cipolwg hefyd ar ymchwil dan nawdd Tenovus ymghylch pwysigrwydd hylendid bwyd i gleifion sy'n derbyn triniaeth cemotherpi a'u teuluoedd.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Trip i Techniquest
Bu dosbarthiadau Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad â Techniquest i weld y sioe 'Goleuni' ac i gymeryd rhan mewn amrywiol weithgareddau. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau yng Nghaerdydd.

Y Theatr Newydd
Fel rhan o'u gwaith ar y Celtiaid aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 i weld sioe 'Horrible Histories' yn y Theatr Newydd yn Nghaerdydd. Roedd pawb wedi mwynhau y rhannau 3D yn enwedig!

Gala Nofio'r Urdd
Diolch yn fawr i'r disgyblion o Fl 5 a 6 wnaeth gynrychioli'r Ysgol yng ngala nofio'r Urdd ym mhwll nofio Ynysawdre.

Llysgenhadon Diogelwch y Ffordd
Mae'r Llysgenhadon wedi bod wrthi'n brysur yn codi ymwybyddiaeth y plant a'u rhieni o'r pwysigrwydd o ddefnyddio seddau ychwanegol (booster) wrth deithio mewn ceir.

Profiad y Nadolig
Bu Blwyddyn 3 yn Eglwys Dewi Sant yn dysgu am stori y Nadolig dan arweiniad aelodau'r eglwys. Dysgont lawer am stori'r geni mewn ffordd ddiddorol a rhyngweithiol.

Sioeau Nadolig
Diolch yn fawr i'r holl blant a'r staff am eu sioeau Nadolig campus eto eleni. Perfformiwyd chwedl Jac a'r Goeden Ffa wedi ei phlethu â stori'r geni gan blant y Cyfnod Sylfaen yn Eglwys Dewi Sant. Roedd yr Adran Iau yn perfformio hanes trafferthion y corachod yn 'Santa ar Streic' yn y Ganolfan Hamdden yn Nhonyrefail.

Ffair Nadolig
Fe drefnodd y Gymdeithas rieni ffair Nadolig lwyddiannus iawn unwaith eto y flwyddyn hon. Cafodd pawb gyfle i brynu anrhegion Nadolig a mwynhau paned a mins pei neu ddwy! Bu'r Cyngor Ysgol a Blwyddyn 6 yn brysu'r iawn yn trefnu stondin losin ar gyfer y Ffair Nadolig ac fe wnaethpwyd elw o £100 - fydd yn cael ei wario ar adnoddau amser chwarae gwlyb.

Ymweliad Siôn Corn
Er ei fod yn hynod o brysur galwodd Siôn Corn i weld disgyblion yr Ysgol gyda anrheg fechan i bob un. Diolch i'r Gymdeithas Rieni am drefnu hyn.

Ysgol Pont Sion Norton

Nofio'r Urdd

Llongyfarchiadau i Gwen Salmon Blwyddyn 3 ac Aled Evans Blwyddyn 4 ar fynd trwy i gynrychioli'r Sir yng ngala nofio'r Urdd ar ddiwedd mis Ionawr- Pob lwc iddyn nhw!

Coedwig Wyllt
I gyd-fynd a'r thema 'Coedwig Wyllt', aeth blynyddoedd 3 a 4 i Ganolfan Dysgu Dŵr Cymru yng Nghilfynydd. Bu'r plant yn creu cartrefi i anifeiliaid y goedwig ac yn casglu ac astudio creaduriaid y pwll. Cafwyd llawer o hwyl, er gwaetha'r tywydd oer iawn a gwlyb. Aeth rhai adref yn fwd i gyd!!

Llongyfarchiadau
Dymuna holl blant a staff yr ysgol longyfarch Mrs Cerys Richards a'i gŵr Gavin ar enedigaeth eu mab - Ralffi Thomas Richards ar nos Galan. Rydym yn edrych mlaen i'w gweld yn yr ysgol yn fuan.

Cariad@yrUrdd
Newidiwyd lliw gwisg yr ysgol i goch, gwyn a gwyrdd i ddathlu diwrnod Cariad@yrUrdd - i godi ymwybyddiaeth o eisteddfod Yr Urdd Pen y Bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017. Bu'r plant yn brysur yn gwneud gwahanol weithgareddau ac fe gasglwyd £200 tuag at darged yr Ysgol. Daeth Mr Urdd ei hun i ddweud helo wrth y plant a chwmni Tinopolis i ffilmio y plant ar gyfer y rhaglen 'Prynhawn Da'.

Owain Glyndŵr
Cafodd blant yr Adran Iau sioe i'w chofio pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i berfformio Owain Glyndŵr yn yr ysgol yn ddiweddar. Roedd y sioe yn hynod o ddiddorol a bywiog ac fe ddysgodd y plant lawer am hanes un o awryr Cymru, fel rhan o'u gwaith ar 'Arwyr a Dihirod'.

Heddlu
Diolch yn fawr iawn i PC Evans am ddod i siarad gyda'r plant am nifer o faterion pwysig iawn, yn cynnwys bwlio. Roedd pawb wedi gwrando'n astud iawn a dysgu llawer am y negeseuon pwysig. (llun)

Yr Antarctig

Cafwyd wythnos ddiddorol iawn ar draws yr ysgol yn ystod yr wythnos tasgau cyfoethog. Diolch i dadcu Emma Brown blwyddyn 4 am ddod i son mwy am ei brofiadau yn yr Antarctig trwy siarad, dangos lluniau a dangos offer go iawn a ddefnyddiodd yno yn ei waith. Fe ddaeth a'r Antarctig yn brofiad mwy byw.

Pêl-rwyd
Diwrnod egniol iawn oedd diwrnod twrnamaint pêl-rwyd yr Urdd ym mis Ionawr- 8 gem mewn diwrnod! Dyma oedd gemau cyntaf mwyafrif o'n tim, ac fe fwynhaeodd pob un- hyd yn oed wrth golli rhai gemau! Maent yn edrych ymlaen at y gêm nesaf…..

Nos Galan

Pob nos Galan, mae ras fawr yn Aberpennar i gofio am Guto Nyth Bran, a'r rhedwr cudd eleni oedd Colin Jackson. Mae ras i'r plant yn ogystal â'r oedolion, a daeth Gwen Salmon o flwyddyn 3 yn 3ydd yn ei grŵp oedran-gwych!

Jambori yr Urdd
Bydd blynyddoedd 3 a 4 yn cael amser swnllyd a llawn hwyl yn y Jambori ar y 3ydd o Chwefror!! Diolch i'r Urdd am drefnu unwaith eto - uchafbwynt y flwyddyn i nifer!!

Yn y goedwig

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Cydymdeimlo.
Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Steve Lamb a'r teulu ôll ar golli chwaer Steve. Roedd Pauline yn byw ym Mirmingham ac wedi bod yn wael ers sbel. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu.

Eilonwy
Chwith iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Eilonwy Jones ddechrau'r flwyddyn. Bu Eilonwy'n byw am flynyddoedd yn y Groes-faen ac roedd yn adnabyddus i genedlaethau o blant Llanhari fel Miss Jenkins, y Ddirprwy Brifathrawes. Roedd hi hefyd yn athrawes gerdd ysbrydoledig.

Yn ddiweddarach, priododd â T.J. Rhys Jones a chawsant gyfnod hapus yng nghwmni ei gilydd, cyn ei golli ef lawer yn rhy fuan. Bydd rhai o aelodau Cymdeithas Gymraeg Llantrisant yn cofio ymgynnull yn eu cartref yn y Groes-faen ar noswyl Nadolig i ymarfer eitemau cerddorol ar gyfer y Plygain oedd yn arfer cael ei gynnal ym Mhont-y -clun. Byddai'n gychwyn hyfryd i lawenydd y Nadolig.

Ar ôl colli ei chymar, symudodd Eilonwy i Gaerdydd, bu'n un o golofnau capel Minny Street a sefydlodd Gôr Hamdden, a oedd ymhlith y cyntaf o'r 'corau pensiynwyr' a ddaeth yn boblogaidd yn y cyfnod diweddar.

Roedd Eilonwy'n berson annwyl ac yn uchel iawn ei pharch ym mhob cylch, ac mae'n chwith iawn meddwl ei bod wedi ein gadael.

Croeso'n ôl.
Croeso i Robert Lamb a'r teulu ar ddychwelyd i Dde Cymru. Mae Robert, Sim a Thomas wedi ymgartrefu yn Sain Nicolas er bod Robert yn dal i weithio yn Llundain ar hyn o bryd.

Merched y Wawr,
Cangen Tonysguboriau
Cafodd yr aelodau dipyn o flas y Nadolig yng ngyfarfod Rhagfyr. Daeth Eluned Davies-Scott ag amrywiaeth o ddanteithion ar gyfer yr Ŵyl gan roi syniadau ar gyfer paratoi bwydydd ymlaen llaw. Cafwyd y cyfle i flasu bwydydd Nadoligaidd sawrus a melys gyda rysetiau a syniadau newydd i'r aelodau roi tro arnynt. Mae'n bosib bod yr aelodau wedi mentro ar un neu ddau o fwydydd gwahanol ar gyfer y Nadolig. Yn garedig iawn roedd Eluned wedi cynnig llinell gymorth rhag ofn byddai angen cyngor munud olaf ar unrhywun!

Ras Nos Galan
Llongyfarchiadau mawr i Rhys Morgan a redodd yn Ras Nos Calan yn Aberpennar. Daeth e'n gyntaf o dan 18 oed a dim ond 13 oed ydy Rhys. Yn wir, gwell fyth, fe gurodd e ei dad Mark Morgan! Tipyn o gamp Rhys, da iawn ti.

Gymdeithas Gymraeg Llantrisant
Cafwyd amser da iawn yng nghinio Nadolig y Gymdeithas. Fe'i cynhaliwyd ar y 5ed o Ragfyr yng ngwesty'r New House Thornhill.

Canu Carolau i'r Cyhoedd
Ganol Rhagfyr, ar nos Iau o siopa hwyr, fe ddaeth criw ati i ganu carolau yng Nghanolfan Siopa Tonysguboriau. Cafodd siopwyr Marks, Boots, TKMax a Sports Direct eu swyno gan y canu a chodwyd dros £100 i esisteddfod 2017 mewn cwta awr. Da iawn i'r plant ar bobl ifanc am ddod ag ysbryd y Nadolig i'r lle.

Y cyfryngau
Ar 8 Rhagfyr, bu rhai o drigolion Llantrisant a'r Groes-faen yn brysur ar y cyfryngau. Yn y bore, ar y rhaglen Bore Cothi, clywyd Geraint Price yn sôn am raglen a wnaeth i Radio Cymru 30 mlynedd yn ôl, yn sgil ei atgofion am ei dad ac ymchwil a wnaeth i hanes côr arbennig iawn y bu ei dad yn aelod ohono, sef Côr ENSA. Roedd hwn yn gôr o gantorion arbennig a fu'n teithio yn India a gwledydd eraill yn diddanu milwyr byddinoedd Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Gadawodd tad Geraint y gweithfeydd dur yn ardal Llanelli i ymuno â'r côr. Ym mis Mai eleni bydd yn 70 mlynedd ers i'r côr ddychwelyd i Brydain, a byddai'n wych petai Geraint yn gallu rhoi peth o'r hanes inni ar dudalennau Tafod Elái.

Yna, ar Newyddion 9, ymddangosodd Gwenno, Ifan a Math, y Groes-faen (am eiliadau!) mewn eitem am arian ychwanegol a roddwyd i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Roedd Ifan a Math wedi eu gwisgo fel meddygon, mewn cotiau gwynion gyda stethosgop yr un, ac yn edrych yn ddoniol iawn ar ffilm oedd wedi ei chyflymu! Gwenno oedd yn gweithio'r 'til' oedd yn dosbarthu'r arian!

Gohebydd mis nesaf : Eirlys Lamb / eirlys-lamb@talk21.com

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Llongyfarchiadau
Croeso mawr i Guto Emlyn, mab Elin a Hywel Roberts, brawd bach i Nel ac wŷr i Margaret ac Ifan Roberts ,Tŷ Cnau. Mae'n siwr i Guto Emlyn fwynhau ei Nadolig cynta'. Llongyfarchiadau gwresog iddynt i gyd a phob dymuniad da i'r teulu bach yn Nhreganna. (Llun tudalen 4)

Y Plygain
Daeth cyfle unwaith eto i ddathlu'r flwyddyn newydd drwy gynnal Plygain yn Eglwys Sant Catwg Pentyrch. 'Roedd yr eglwys yn llawn ac arweiniwyd y gwasanaeth yn ddeheuig gan Rhodri Gwynn Jones. Crewyd naws hyfryd a chynnes wrth i gôr bach Ysgol Creigiau agor y noson yn swynol dros ben a bu'n bleser gwrando ar y gwahanol bartion ac unigolion wrth iddynt ganu yn eu tro. Casglwyd £426 tuag at elusennau'r Eglwys eleni, sef Byddin yr Iachawdwriaeth ac apêl Syria. Yna ymlaen i'r Kings i groesawu'r Fari Lwyd osgeiddig a drygionus! Mawr fu'r sŵn a'r hwyl a dyma ddigwyddiad sydd erbyn hyn yn rhan anatod o draddodiad Clwb y Dwrlyn.

Yn ogystal casglwyd £224 i Ysgol Craig y Parc gan aelodau Clwb y Dwrlyn wrth fynd o gwmpas y pentre yn canu carolau cyn y Nadolig.

Cydymdeimlad
Ar y 15eg o Rhagfyr 2015 cynhaliwyd angladd Dr R Elwyn Hughes yn Amlosgfa Thornhill. Yn un o brif arloeswyr trafod gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, bu'n aelod o staff Prifysgol Cymru, Caerdydd a chyn hynny Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru. Biocemeg ymbortheg oedd ei faes ymchwil a chyfrannodd yn helaeth i'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Roedd Elwyn yn eang ei ddiddordebau a chyhoeddodd nifer o lyfrau byrion yn ymwneud â hanes lleol gan gynnwys un ynghylch Pentyrch. Mae'r gyfrol honno yn canolbwyntio yn bennaf ar hynt a helynt un o gymeriadau lliwgar y pentre yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg sef y ficer, y Parchedig Horatio Thomas. Bu Elwyn a'i deulu yn byw am flynyddoedd yn hen ficerdy eglwys Pentyrch - Bryn Catwg - cyn symud rhai blynyddoedd yn ôl i Landaf.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig Ceri a'u plant Rhodri a Nia a'r teulu.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Ysgol Uwchradd Pontypridd

Ymweliad gan Dr Gina Morgan
Croesawodd yr Adran Gymraeg, Dr Gina Morgan i'r ysgol yn ystod y tymor diwethaf. Daeth Dr Morgan i gyflwyno cyrsiau a oedd ar gael ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Roedd hi'n amlwg bod Dr Morgan wedi creu argraff a dylanwad enfawr ar ein disgyblion ym mlwyddyn 11 a'r chweched dosbarth gan fod rhai ohonynt yn ystyried dilyn cwrs yn y brifysgol yn y dyfodol. Diolch yn fawr Dr Morgan! (Llun tudalen 4)

Parti Nadolig y Pensiynwyr
Unwaith eto eleni roedd parti'r Nadolig yn llwyddiant enfawr yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Roedd y chweched dosbarth wedi gweithio'n galed dros ben er mwyn sicrhau parti i'w gofio. Gan gynnwys bwyd blasus, adloniant cyffrous. Daeth Siorn Corn gydag anrhegion i'r gwesteion lwcus hefyd.

Presenoldeb
Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Pontypridd wedi bod yn dangos awydd di ri yn yr wythnosau diwethaf wrth i'r staff lansio cystadleuaeth presenoldeb. Mae'r disgyblion wedi bod yn ennill gwobrwyau ar hap am eu presenoldeb uchel. Ers i'r gystadleuaeth ddechrau, mae ffigurau presenoldeb yr ysgol wedi cynyddu ac mae'r disgyblion yn awyddus iawn i wneud bob ymdrech i fod yn brydlon bob bore. Da iawn chi!

Pwyllgor Apêl yr Urdd
Bu'r cwis ym mis Ionawr yn hynod o lwyddiannus gyda 17 tîm yn dod i fwynhau cystadlu ac ateb cwestiynau Gareth Blainey. Codwyd £350. Mae Gareth wedi cytuno baratoi cwis arall ym mis Medi. Dioch i bawb am eu cefnogaeth.

Roedd Eglwys Sant Catherine yn llawn ar gyfer Cyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth gyda Côr y Cwm. Cafwyd gwledd o ganu gan y ddau gôr. Mae diolch arbennig i aelodau y pwyllgor apêl fu'n trefnu'r achlysur ac yn gwerthu tocynnau.

Y digwyddiad nesa yw pryd o fwyd Indiaidd yn y Juboraj - ar yr A470 rhwng Pontypridd ac Abercynon. Dewch i gymdeithasu a mwynhau pryd dau gwrs nos Fawrth Ebrill 12 fed.

Merched y Wawr
Fe fydd y gangen yn cwrdd nos Iau 11eg o Chwefror yn Festri Capel Sardis. Noson o ymestyn gyda Mari Rhys mewn sesiwn o Pilates.

Byddwn yn dathlu ym mis Mawrth wrth giniawa ym mwyty Cicchetti yn Radyr nos Iau 10fed o Fawrth. Cysylltwch a Dilys Davies os ydych am ymuno yn nathliadau Gwyl Ddewi y Gangen.

Colledion
Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth dyn ifanc o'r ardal. Bu farw Ceri Lewis ym Mis Rhagfyr. Bu'n ddisgybl yn Ysgolion Pont Sion Norton a Rhydfelen. Estynnwn cydymdeimlad at ei bartner a'i feibion. Hefyd at ei rieni Clive a Vanessa Lewis, Ridgeway Close a'i chwaer Rachel a' i frawd Gareth a'u teuluoedd.

Cyn Nadolig bu farw Mrs. Olwen Lewis, Llanbedr Pont Steffan. Roedd yn fam i Menna Lewis, Graigwen. Estynnwn ein cydymdeimlad at Menna a'i thad, Mr. Lewis Lewis. Hefyd brawd Menna, Ian a'i deulu yn y gorllewin a'i chwaer Nia a'i theulu yng Nghaerdydd.

Clwb Llyfrau
Yn anffodus nid yw Clwb y Bont ar agor nos Lun a Mawrth oherwydd diffyg cwsmeriaid. Felly mae 'r Clwb llyfrau yn cwrdd ar y drydedd nos Iau o bob mis.Y gyfrol dan sylw mis yma yw nofel ddiweddara Caryl Lewis ' Y Bwthyn' ac hefyd unrhyw hunangofant diweddar. (nos Iau Chwefror 16eg)

Ym mis Mawrth cynhelir y cyfarfod nos Iau, Mawrth 17eg am 8.00 yng Nghlwb y Bont. Byddwn yn trafod cyfrolau 'clasurol' Saesneg.

Cyhoeddiad Newydd
Mae llyfr newydd wedi ymddangos o'r wasg gan Yr Athro Gareth Williams, Pontypridd sef 'Do you hear the People sing?'- The Male Voice Choirs of Wales. Mae'r gyfrol yn olrhain hanes corau meibion yng Nghymru trwy gyfrwng straeon ac mae'n adrodd arwyddocad cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol traddodiad corau meibion y genedl. Cyhoeddwyd gan Gomer . Pris £14.99.

Eleni, am y tro cyntaf, 12 Chwefror yw #DyddMiwsigCymru - diwrnod i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg gan arwain at Gwobrau'r Selar ar 20 Chwefror.

Gyda chefnogaeth rhai o brif gerddorion Cymru a'r diwydiant, bydd y prosiect yn dathlu bron i 50 mlynedd o gerddoriaeth anhygoel.

Mae modd i bawb fod yn rhan o'r dathlu, o siopau neu gaffis, i ysgolion a cholegau

Gall unrhyw un gefnogi ymgyrch #DyddMiwsigCymru drwy rannu eu hoff #Tiwn ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Dyma 5 peth y gelli di wneud i ddathlu #DyddMiwsigCymru

Rhannu dy hoff gân Gymraeg #Tiwn
Mynd i wylio gig Cymraeg
Prynu albwm neu gân Gymraeg
Darllen copi o 'Y Selar' arlein
Gwrando ar C2 ar Radio Cymru

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
19 Chwefror2016

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Rifiw

8.00yh Nos Iau 25 Chwefror

Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Cinio Gŵyl Dewi

12.30yp Dydd Sul

28 Chwefor

Clwb Golff Creigiau

Manylion: 029 20890040

MERCHED Y WAWR
Cangen Tonysguboriau

Dr Owen Charles

7.30yh, Chwefror 17fed
Y Pafiliwn, Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Noson yngnghwmni Siaradwr Gwadd

Nos Fercher 10 Chwefror
8yh yng Nghanolfan Efail Isaf.

Manylion: 029 20890770

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Grŵp Dysgwyr

Dyn ni wedi dechrau grwp newydd i ddysgwyr sy'n cwrdd amser cinio (12.30) ddydd Mercher (dim ond am hanner awr) i ddarllen beibl.net - fersiwn modern y Beibl - gyda'n gilydd. Croeso cynnes i bawb - dysgwyr neu siaradwyr profiadol, Cristnogion neu beidio. Dyn ni'n cwrdd yng Nghaffi Garth Olwg. Cysllltwch â Rosa ar revdrosa@gmail.net os oes diddorddeb gyda chi.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017
Taith Gerdded
Diolch yn fawr iawn i'r criw o ddeg ar hugain a ddaeth i gerdded yn y gwynt a'r glaw ddydd Sul, 3 Ionawr. Llwyddwyd i godi dros £100 a chafodd pawb dipyn o hwyl yn ymestyn y coesau hefyd. (Llun tudalen 4)

Dyddiadau i'ch dyddiadur
Yn dilyn llwyddiant y Noson Pysgod a Sglodion yn neuadd yr Ysgol Gymraeg, y digwyddiad nesaf yn yr ysgol fydd Noson Pitsa a Rasys Ceffylau – **nos Wener, 15 Ebrill am 7pm**.
Mae'r Savoy bellach yn theatr unwaith eto. Ond mewn cyfnod blaenorol, neuadd bingo oedd hi. Byddwn ni felly'n cynnal noson bingo ddwyieithog **nos Wener, 20 Mai am 7pm.**
Hefyd, mae Pwyllgor Tonyrefail a Gilfach Goch yn gwerthu tocynnau yn ein hardal ni ar gyfer gig Bryn Fôn a Band Nantgarw yn Neuadd Dowlais, Crown Hill ar nos Sadwrn, 12 Mawrth. Cysylltwch os byddwch chi eisiau un.

Noddi Tlws
Dyw hi ddim yn rhy hwyr i chi noddi tlws ar gyfer un o'r cystadlaethau yn yr Eisteddfod – mae'n costio £100 i noddi tlws am flwyddyn. Rydym wedi codi £800 mewn nawdd am dlysau hyd yn hyn, sy'n help mawr tuag at gyrraedd ein targed o £10,000.

Alltwen
Llongyfarchiadau i Gwynfor Dafydd sydd wedi derbyn lle ym Mhrifysgol Caergrawnt. A dymuniadau gorau i Helen Prosser sy'n gadael Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg ac yn mynd i weithio i'r Ganolfan Genedlaethol Cymraeg i Oedolion.

Llwyddiant Nofio i Blant Tonyrefail
Llongyfarchiadau i bedair o ferched o Ysgol Cwm-lai a enillodd y ras gyfnewid dull rhydd a dod yn drydydd mewn ras arall yn y Gala Nofio Cenedlaethol a gynhaliwyd gan yr Urdd ddydd Sadwrn, 23 Ionawr. Ar ben hynny, aeth un aelod o'r tim ymlaen i ennill y ras unigol dull rhydd. Da iawn ferched!

Eisteddfod y Dysgwyr

7:00yh Nos Wener, 18 Mawrth
Yng Nghanolfan Gartholwg,
Pentre'r Eglwys
Croeso i bawb!
01443 483 600

YSGOL CREIGIAU

Fe ddaeth diwedd Tymor y Nadolig i ben gyda chyngherddau, partïon, a Noson Ffilm lwyddiannus dros ben. Diolch o galon i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith diflino yn ystod y tymor yn trefnu gweithgareddau di-ri fel yr uchod i godi arian i'r ysgol.

Croeso cynnes iawn i Mrs Lynette Timothy, ein Dirprwy newydd. Yn ogystal â'i rôl bwysig fel dirprwy, Mrs Timothy hefyd yw athrawes newydd Dosbarth 1. Rydym yn falch iawn o gael ei chwmni gyda ni.

Ar fore Gwener, 8fed o Ionawr, aeth chwech o'n disgyblion Blwyddyn 6, ynghyd â Mrs Hussey, i Ysgol Gynradd Llysfaen i seremoni wobrwyo 'Her i-CANS'. Nod yr her oedd bod benthyciad o £10 yn cael ei roi i'r disgyblion a bod ganddynt bum wythnos i wneud yr elw mwyaf posib. Datblygodd y disgyblion eu sgiliau menter eu hunain a chodon nhw arian ar gyfer ein hysgol a hefyd ar gyfer Canolfan Gancr Felindre. Roedd gan y disgyblion stondin yn ein Ffair Nadolig ac fe werthon nhw eu 'Gwlanenni Ffynci' cyn ein Cyngherddau Nadolig gan wneud elw o £80. Llongyfarchiadau iddynt am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Tipyn o gamp yn wir!

Ddydd Iau, 14eg Ionawr, aeth ugain o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yr ysgol i gystadlu yn Nhwrnamaint pêl -droed yr Urdd ar gaeau Gerddi Soffia. Fe chwaraeodd pob un yn arbennig o dda gan fwynhau pob munud. Da iawn fechgyn!

Yr wythnos olynol, tro'r merched oedd hi! Unwaith eto, chwaraeodd pob un yn arbennig o dda gan ddangos ymroddiad a dyfalbarhad. Diolch i Mr Balbini am hyfforddi'r bechgyn a'r merched ac am ddarparu'r cyfle iddynt i allu cystadlu.

Ar y 12fed o Ionawr, aeth pymtheg o ferched Blwyddyn 5 a 6 i ganu yn y Blygain yn Eglwys Pentyrch. Diolch am y gwahoddiad i ganu eleni eto.

Ddydd Mercher, Ionawr 13eg daeth P.C. Sara sef ein Swyddog Heddlu Cymunedol, i ymweld â'n hysgol i gyflwyno gwers ar fwlio seiber i ddisgyblion Dosbarth 6. Roedd pob un yn cytuno bod y wers wedi bod yn hynod o ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol. Yn ystod y tymor hwn a thymor yr haf, bydd P.C. Sara yn ymweld â phob dosbarth i gyflwyno gwersi ar amrywiaeth o themâu.

P.C. Sara yn cyflwyno gwers ar fwlio seiber i ddisgyblion Dosbarth 6.

CROESAIR COL



Ar Draws

1. Cawl (5)
4. Maes y gad (7)
8. Dydd Iau o flaen y Pasg (7)
9. Cyfartal (5)
10. Un sy'n gohirio (5)
13. Lle i gadw car (7)
17. Anwir (3)
18. Awyddu (6)
19. Ar annel (6)
20. 480 o ddalennau (3)
22. Gwersyll (7)
25. Lloches (5)
28. Dodi olew ar (5)
29. Yn offrymu (7)
30. Y gellir ei newid (7)
31. Uniad (5)

I Lawr

2. Lluosog 24 i lawr (5)
3. Ystafell dan y ddaear (5)
4. Cwympo (6)
5. Anystyriol (5)
6. Edfryd (5)
7. Tost (3)
8. Peth i gau drws (3)
11. Aceri (5)
12. Certws (5)
14. Igam …. (4)
15. Y Fall (5)
16. Gori (5)
17. Siâp (4)
21. Yn gwella (6)
23. Llym (5)
24. Rhan waelod o'r goes (5)
25. Troi (5)
26. Anifeiliaid anwes (5)
27. Dwli (3)
28. Bywyd (3)

Atebion i: Croesair Col 34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX erbyn 15 Chwefror 2016

Atebion Rhagfyr

A	C	W	A	R	I	W	M		P		C	
	L		N		R		A	R	L	W	Y	D
T	U	S	W		D	U	W		A		T	
	D		E		E		N		T	R	U	TH
C	O	N	S	U	R	I	O		E		N	
L		W		S			G	O	R	M	O	D
O		Y		Y				F		I		U
D	A	D	U	N	O			N		R		A
	R		N		D	I	FF	I	N	I	A	D
B	O	DD	I		Y		E		O		D	
	G		O		N	A	I		G	R	A	DD
B	L	I	N	O			N		I		R	
	I		I		C	A	D	L	O	NG	A	U

Ysgol Dolau

Lluniau Tudalen 13

Trawsgwlad
Aeth ein tîm trawsgwlad i barc Trelai, Elai ddydd Iau, Tachwedd 19eg i gystadlu. Tywydd trawsglwad o law a gwynt gyda chae meddal a mwdlyd!! Rhedodd y plant yn rhagorol unwaith eto a gorffennodd pawb, hyd yn oed gyda dau ohonynt yn colli esgid ar hyd y cwrs ac un arall yn syrthio i'r mwd! Llongyfarchiadau i bob un am eu hymdrechion, ond yn enwedig i'r tîm bechgyn blwyddyn 6 am ennill a dod â'r darian nôl i ysgol!

Ffair Nadolig
Dydd Gwener 27ain o Dachwedd roedd awyrgylch Nadoligaidd iawn yn Ysgol Dolau. Daeth Siôn Corn i ymweld â'r plant yn y Ffair Nadolig. Roedd yna nifer o stondinau llawn syniadau anrhegion Nadolig i'r person arbennig yna. Canodd y côr garolau Nadolig, roedd roliau twrci, cacennau, losin a llawer mwy o hwyl a sbri ar gael. Diolch i bawb a gefnogodd yr ysgol.

Trosglwyddo
Aeth Dosbarth 7, fel rhan o'r rhaglen trosglwyddo, i Ysgol Llanhari i weld eu sioe gerdd 'Nôl i'r 80au'. Roedd hi'n braf iawn gweld cyn-ddisgyblion yr ysgol yn chwarae rhai o'r prif rannau, yn ogystal â chyn-ddisgyblion diweddar yn cymryd rhan fel aelodau o'r corws. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gweld eu hen ffrindiau ar y llwyfan a chafwyd bore hyfryd gan bawb.

Gala Nofio
Ddydd Llun 30ain Dachwedd aeth tîm o 26 o blant i Bwll Nofio Ynysawdre ar gyfer Gala Nofio yr Urdd. Ein blwyddyn fwyaf llwyddiannus yn y gala gyda 11 medal yn cael eu hennill drwy gydol y dydd. Daeth ein merched yn y tîm cyfnewid blwyddyn 3-4 i ffwrdd gyda medal aur, bechgyn 3-4 medal arian, enillodd Paige Richardson dwy fedal efydd unigol ac enillodd Troy McDermot medal arian yn ei ras unigol. Rydym yn falch iawn o'r holl dîm gyda pherfformiad gwych!

Plant Mewn Angen
Unwaith eto, gwnaeth plant Dolau cefnogi'r elusen wrth wisgo i fyny yn eu 'onesies' neu pyjamas gyda chyfraniad o £1. Yna, am 20c arall cawson dod â'u tedi gyda nhw i'r ysgol. Codom £560 i'r achos da – diolch i bawb am gyfrannu.

Cyngherddau Nadolig
Unwaith eto roedd y clychau'n canu ar draws yr ysgol yn ystod ein hwythnos cyngherddau. Canodd y plant meithrin a derbyn yn rhagorol yn eu gwasanaeth carolau nhw. Gwnaeth blwyddyn 1 a 2 sioe yn seiliedig ar eu hoff llyfr 'Yr Arth Eira' – gwnaeth pob un actio a chanu'n wych gyda'r gynulleidfa yn mwynhau pob golygfa gyda chymeriadau a chaneuon gwahanol, yn enwedig y Pengwin Rap! Cynhaliodd disgyblion yr Adran Iau wasanaeth carolau tu allan o gwmpas y goeden eleni. Roedd naws fendigedig a Nadoligaidd iawn wrth i'r plant ganu ac adrodd o gwmpas y goeden gyda'u llusernau golau'n disgleirio hefyd.

Gŵyl Coed Nadolig
Dewisodd y Cyngor Ysgol thema 'Gaeaf' eleni i addurno'r coed ar gyfer Gŵyl Coed Llanharan a Llantrisant. Cafodd y plant hwyl wrth greu plu eira, sêr ac addurniadau ar gyfer y coed gyda gliter ym mhobman erbyn y diwedd! Diolch hefyd i'r côr a ganodd yn hyfryd yn ystod y ddwy ŵyl yn yr eglwysi.

Parlwr y Maer
Aeth y Cyngor Eco i Barlwr Maer Rhondda Cynon Taf i gwrdd â'r Maer Barry Stephens lle ddysgon am swyddi'r Maer a chyflwynon nhw beth mae'r ysgol yn wneud ynglŷn ag ailgylchu a chadw'r ardal yn ecogyfeillgar!

Rygbi
Aeth y tîm i Bontyclun ar gyfer prynhawn gwych o rygbi, yn chwarae yn erbyn 5 tîm arall. Gemau cyfeillgar oeddent gyda'r chwaraewyr yn cadw sgôr yn fwy na'r athrawon! Cafodd nifer o blant eu cyfle cyntaf i chwarae dros yr ysgol. Da iawn i bob aelod o'r tîm rygbi.

Ymweliad â Brasil
Mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous iawn i Ysgol Gynradd Dolau a'u cysylltiadau ysgolion rhyngwladol. Mae amryw o bartneriaethau wedi eu hadeiladu ar draws y byd gyda'r nod o ddatblygu sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang. Treuliodd Miss Gwenter a Miss Jenkins wythnos yn ymweld a ysgol bartner Dolau yn Sao Paulo, Brasil, fel rhan o'r Prosiect Cysylltu Dosbarthiadau. Cawsant groeso gwych a chawsant y cyfle i ddysgu mewn nifer o ysgolion, gan gynnwys eu hysgol bartner, Ysgol Alfredo Inacio. Dysgon nhw'r disgyblion am Ysgol Dolau, yr ardal leol a Chymru. Ymatebodd y disgyblion yn dda, gan ddangos disgyblaeth wych ac fe wnaethant fwynhau mas draw wrth ddysgu am ein gwlad. Fe wnaethant hyd yn oed dysgu ychydig o ymadroddion Cymraeg. Rhoddwyd cyflwyniadau gan y disgyblion yn yr ysgolion yn Sao Paulo addysgu'r athrawon am eu diwylliant, credoau a bywydau bob dydd. Cafodd athrawon Dolau amser anhygoel ac roeddent yn gyffrous iawn i ddod â rhan o Frasil yn ôl i Ysgol Dolau. Mae Dolau nawr yn paratoi i groesawu eu partneriaid ym mis Ionawr, ac yn gobeithio bod hyn yn bartneriaeth gynaliadwy arall a fydd yn parhau i dyfu. Gallwch wylio'r daith Miss Gwenter a Miss Jenkins ar dudalen Tyndra Ysgol Gynradd Dolau .

Ymweliad â Bangladesh
Ym mis Tachwedd teithiodd Miss Pugh a Miss Osborne i Fangladesh fel rhan o brosiect Cysylltu Dosbarthiadau ag ariannwyd gan y Cyngor Prydeinig. Mae Ysgol Gynradd Dolau yn Llanharan wedi ei phartneru gydag Ysgol Gynradd Shabandar yn Sylhet. Yn ystod eu hymweliad, derbyniodd Miss Pugh a Miss Osborne groeso cynnes a chyfeillgar oddi wrth ddisgyblion, athrawon ac aelodau o'r gymuned leol. Roedd y seremoni groesawu wedi arddangos diwylliant y wlad ac roedd eu brwdfrydedd tuag at y bartneriaeth yn amlwg. Mae plac wedi cael ei osod a choeden wedi cael ei phlannu er anrhydedd y prosiect.

Yna ddydd Mercher, Ionawr 13eg croesawodd Ysgol Dolau athrawon o Fangladesh i'r ysgol. Buon gyda ni drwy'r dydd gan ddechrau gyda gwasanaeth croeso pryd rhoddwyd a derbyniwyd anrhegion ac yna ymweliadau â'r dosbarthiadau yn ystod y dydd. Mwynheuon weld sut roedd y plant ieuengaf yn dysgu ac roedd gan y plant hŷn lawer o gwestiynau am eu gwlad a diwylliant nhw. Ymweliad llwyddiannus i rannu ein diwylliant a chryfhau'r bartneriaeth ymhellach.

Noson Lawen
Llongyfarchiadau i Charlotte Kwok am fod yn rhan o raglen Nadolig S4C Noson Lawen a oedd yn dathlu talentau pobl ifanc y wlad. Canodd Charlotte y piano'n arbennig o dda unwaith eto – un o sêr y sioe.

Criced
Llongyfarchiadau i Ioan Martin a Luke Evans, disgyblion blwyddyn 4, am ennill lle yn sgwad criced Morgannwg Ganol am 2016. Edrychwn ymlaen at weld eu talentau ar y cae criced cyn hir.

Y Senedd
Cafodd disgyblion blwyddyn 6 brofiad arbennig wrth ymweld â'r Senedd, lawr ym Mae Caerdydd. Cawson daith o gwmpas y Senedd ac yna cyfle i ddadlau yn y siambr ei hun. Profiad anhygoel gyda nifer o'r plant yn dangos eu sgiliau llafar wrth gyfathrebu a dadlau! Diolch i'r Senedd am y croeso a'r cyfle.

Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd am ennill y rownd gyntaf yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Yn y gystadleuaeth ardal leol chwaraeodd y tîm saith gêm, ac enillon bob un! Ymlaen â nhw i'r rownd sirol nesaf - da iawn blant a hyfforddwyr!

Rheolau'r Ffordd
Cafodd plant Meithrin wersi pwysig ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Cawson wersi ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel gyda Dennis, ein dyn lolipop, ac ein swyddogion ifanc diogelwch ffordd. Aeth y plant allan i'r brif-heol a dysgu'r rheolau ar sut i groesi'n ddiogel ar y groesfan gyda Dennis.

Pantomeim
Mwynheuodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ymweliad eto eleni â'r theatr newydd yng Nghaerdydd ar gyfer y Panto! Aladdin oedd yn difyrru nhw y tro yma gyda digon o jôcs ac adloniant i gadw nhw i chwerthin o'r dechrau hyd y diwedd. Clod mawr i'r plant am eu hymddygiad rhagorol unwaith eto.

Ysgol Dolau

(Tudalen 12)

Ymweld â Bangladesh

Ymwelwyr o Bangladesh

Ymweld â'r Maer

Gala Nofio yr Urdd

Dennis, ein dyn lolipop

Tîm Trawsgwlad bechgyn blwyddyn 6

Ymweld â Brasil

Sgwad Sgwennu a gweithdy gyda Mererid Hopwood yn Ysgol Gyfun Garth Olwg

Ysgol Castellau

Diolch Amy o'r Urdd am gynnal sesiynau pêl-droed arbennig gyda merched Bl5&6.

Dau dîm yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd.

Yn dilyn ymweliad Miss Hudson ag India y llynedd, braf oedd croesawu ein ffrindiau draw i Gymru dros y Nadolig

Diolch yn fawr i Demi a Matt, myfyrwyr Prifysgol Morgannwg am gynnal sesiynau chwaraeon hwylus i flwyddyn 1 a 2.

Da iawn chi bois am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth rygbi 7 bob ochr Yr Urdd.

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Gala Nofio'r Urdd
Dyma lun o'r disgyblion a gystadlodd yng Ngala Nofio'r Urdd ym mis Rhagfyr. Enillwyd 17 ras gwahanol a byddant yn cystadlu yn Nhwrnamaint Cenedlaethol Cymru ar y 24ain o Ionawr yng Nghaerdydd.

Canlyniadau Chwaraeon mis Ionawr a Rhagfyr
Pêl-rwyd
Blw 7: 4 – 2 Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Blw 8: 17 – 5 Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Blw 9: 11 – 10 Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Blw 7: 13 – 0 Ysgol Gyfun Sant Cenydd
Blw 7: 8 – 0 Ysgol Gyfun Sant Cenydd
Blw 8: 7 – 7 Ysgol Gyfun Sant Cenydd
Blw 9: 11 – 4 Ysgol Gyfun Sant Cenydd
Pêl-droed
Merched Blwyddyn 7: 1-0 Ysgol y Pant
Merched Blwyddyn 7a 8: 3-1 Ysgol y Pant
Merched Blwyddyn 9 a 10: 3-1 Ysgol y Pant
Merched Blwyddyn 7: 3-1 Bryncelynnog
Merched Blwyddyn 8: 1-2 Bryncelynnog
Merched Blwyddyn 9: 1-1 Bryncelynnog
Bechgyn Blwyddyn 8: 3 -5 Ysgol Y Pant (Cwpan Cymru)
Tîm Bechgyn y 6ed: 6-3 Ysgol Y Ddraenen Wen (Cwpan RhCT)
Bechgyn Blwyddyn 7: 4-2 Ysgol Tonypandy
Rygbi
Blwyddyn 7: 35-12 Ysgol Llanhari
Blwyddyn 8: 5-24 Ysgol Llanhari
Blwyddyn 7: 47-0 Ysgol Y Ddraenen Wen
Blwyddyn 8: 58-0 Ysgol Y Ddraenen Wen
Blwyddyn 10: 65-0 Ysgol Y Ddraenen Wen
Tîm cyntaf: 17-17 Ysgol Aberdâr sy'n rhoi'r ysgol yn y 3ydd safle yng Nghynghrair Gleision y Gogledd gydag 1 gêm i fynd.

Ffair Nadolig
Roedd llawer o syniadau anhygoel gan y disgyblion yn ffair Nadolig yr ysgol. Roedd stondinau gwahanol o falu Maltesers i daflu pêl fasged i ddal hwyaden ar fachyn. Roedd rhaid i bob dosbarth cofrestru yn yr ysgol greu stondin am y ffair Nadolig i godi arian. Gweithiodd pawb yn galed i greu stondinau gwych a chafodd pawb hwyl a sbri gan godi £1400 rhwng y siwmperi Nadolig a'r Ffair.

Efan Fairclough Bl.8

Enillydd y siwmper Nadolig orau oedd Meirion Timothy o flwyddyn 7.

Ymweliad Leanne Wood
Bore dydd Mawrth y pedwerydd ar bymtheg o Ionawr, ymwelodd arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood â'r ysgol. Cafodd y chweched cyfan sesiwn tuag awr i wrando ar safbwyntiau a syniadau Leanne. Cawsom gyfle i ofyn cwestiynau ynglŷn â materion cyfoes sydd yn ein heffeithio, megis y toriadau posib i'r ffioedd dysgu yng Nghymru a'r sefyllfa bresennol gyda'r argyfwng ffoaduriaid. Cawsom hefyd drafodaeth ar sut brofiad yw bod yn fenyw mewn gwleidyddiaeth. Roedd y drafodaeth yn ddiddorol iawn ac fe roddodd weledigaeth newydd ar wleidyddiaeth i nifer gan gyflwyno safbwyntiau gwahanol.

Branwen Roberts Bl.12

Sgwad Sgwennu a gweithdy gyda Mererid Hopwood
Yn ddiweddar, ymunom ni â'r Sgwad Sgwennu s'yn creu profiadau newydd ac yn rhoi cyfleodd i ddatblygu ein sgiliau. Mae'r clwb yn cwrdd pob pythefnos ar ddydd Iau am 1:30. Rydym yng nghanol creu gwaith ysgrifenedig ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a byddwn yn gwneud mwy o brosiectau ysgrifennu amrywiol. Cawsom ni hefyd y cyfle i gwrdd â Mererid Hopwood; y fenyw gyntaf i ennill y Gadair yn yr Eisteddfod yn 2001. Aethom i Goleg Pen-y-bont ym Mhencoed ble dysgon nifer o bethau yn cynnwys rhai arddulliau ar sut i ysgrifennu cynghanedd. Pwrpas y gweithdy oedd ysgrifennu cywydd croeso ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2017 sydd yn dod i'r ardal. Roedd y gweithdy'n gyfle gwych i gwrdd â disgyblion o ysgolion gwahanol.

Caragh McCormack a Chloe Stacey Bl.9

Ras Siôn Corn
Ddydd Mercher yr unfed ar bymtheg o Ragfyr cymerodd yr ysgol gyfan ran mewn ras Siôn Corn. Roedd pawb yn gwisgo siwmperi Nadolig a hetiau Siôn Corn ac yn rhedeg o gwmpas y campws ddwywaith. Mi wnaeth dau fachgen o flwyddyn deuddeg redeg y cwrs tua 12 gwaith! Roedd llawer o'r athrawon hefyd wedi cymryd rhan yn y ras gan gynnwys Mr Edwards y prifathro oedd yn rhedeg fel milgi! Roedd pawb wedi eu noddi i wneud y ras. Roeddem yn gwneud y ras fesul llys ac felly tra bod un llys yn rhedeg roedd llys arall yn y neuadd chwaraeon yn gwneud gweithgareddau tîm. Roedd y ras yn llawer o hwyl ac roedd pawb wedi mwynhau rhedeg o gwmpas yr ysgol er gwaetha'r glaw ofnadwy!

Gruff Roberts Bl.8

Ysgrifennu Creadigol Grim Tales
Ym Mis Medi ysgrifennodd y cwmni Young Writers at yr ysgol i ddweud bod gwaith nifer o ddisgyblion blwyddyn 8 oedd wedi cystadlu yng nghystadleuaeth Grim Tales wedi cael eu dewis i gael eu cyhoeddi yn y llyfr Grim Tales - Into the Unknown. Roedd miloedd o ddisgyblion wedi cystadlu ar draws Prydain a chafodd y straeon gorau eu dewis ar gyfer y llyfr. Mae'r llyfr bellach wedi cael ei gyhoeddi ac mae'n hyfryd gweld gwaith 44 o'r disgyblion ynddo.

Cyfle i fynd i'r brifysgol
Cefais i a 9 disgybl arall o flwyddyn 9 y cyfle i fynd i brifysgol De Cymru. Roedd yn gyfle hynod o dda ac yn fythgofiadwy. Wrth gyrraedd yno eisteddodd ein hysgol ni ac ysgolion eraill mewn ystafell enfawr. Clywsom am drefniadau'r dydd ac ym mha grŵp yr oeddem. Yn fy marn i roedd y ffaith bod y sefydliad wedi rhannu pob ysgol lan yn beth da gan roedd hi'n gyfle gwych i greu ffrindiau newydd. Gwnaethom ddysgu am swyddi gwahanol yn ymwneud â Mathemateg; am nodweddion gwahanol sydd angen er mwyn creu car penodol; dysgu sgiliau cyflwyno; sut i werthfawrogi celf mewn ffyrdd gwahanol a llawer mwy. Dysgais lawer yn yr ymweliad ac rwyf wedi creu llawer o ffrindiau newydd!

Ffion Thomas Bl.9

Llwyddiant Pêl-fasged
Mis yma cefais i fy newis i gynrychioli Cymru o dan 14 mewn cystadleuaeth ym Malta ac roeddwn i mor hapus ond pan glywais mai fi oedd y capten doeddwn i methu stopio gwenu! Rydw i mor falch fy mod yn gallu cynrychioli fy ngwlad gyda fy mrawd Jacob sy'n chwarae i dîm bechgyn dan 18 Cymru ac mae'n gyfle gwych i gwrdd â phobl newydd o bedwar ban y byd.

Freya Williams Bl.8

Taith Sgïo'r ysgol
Yn ystod wythnos olaf y tymor diwethaf, bu criw o ddisgyblion yr ysgol yn ddigon ffodus i gael y cyfle i fynd ar daith sgïo i Zell am See yn Awstria. Yn ystod y daith, roeddem yn sgïo bob dydd ar fynyddoedd enwog Kitzbuhel. Cafodd pawb eu rhannu i grwpiau ac roedd rhai aelodau o'n grŵp ni'n cael cystadleuaeth o bwy oedd yn gallu cwympo lleiaf mewn diwrnod! Roedd y sgïo'n wych ac roedd y golygfeydd yn anhygoel. Roedd llwythi o weithgareddau hwylus fel nofio, siopa a gweld dawnsio traddodiadol Tyrolean gyda'r nos. Hoffwn i ar ran yr holl ddisgyblion aeth ar y daith ddweud diolch i'r athrawon am edrych ar ein hôl a sicrhau bod y daith yn un fythgofiadwy.

Gwenno Iolo Davies Bl.10

Ysgol Llanhari

Dathliadau Nadolig
Llongyfarchiadau i bob un o'n disgyblion 3 i 19 oed a gyfrannodd i ddathliadau Nadolig yr ysgol eleni a diolch i'r staff am eu hymrwymiad llwyr.

'Dewch i Ddathlu'
Perfformiwyd dwy sioe Nadolig gan ddosbarth Dewi Draenog a Chadi Cwningen eleni. Thema'r sioe oedd 'Dewch i Ddathlu'. Bu pob un yn ymarfer am wythnosau ymlaen llaw a braf oedd gweld ein plant ieuengaf yn serennu o flaen eu cynulleidfa. Anodd iawn yw credu mai 5 oed oedd yr hynaf ar y llwyfan! Cafodd bob gair ei adrodd yn glir a phob cân ei ganu'n swynol. Rydyn ni mor falch o bob un! Am berfformiad bythgofiadwy!

'Antur Aladin'
Perfformiodd plant Gwion Gwiwer a Lleucu Llwynog yn eu sioe Nadolig bythefnos yn ôl, 'Antur Aladin a'i griw'. Mwynheuodd y gynulleidfa fins pei a gwin poeth cyn eistedd ar gyfer dechrau'r perfformiadau. Stori oedd hi am Aladin a'i ffrindiau yn ceisio dangos gwir ystyr y Nadolig i'r gelyn, Jaffar. Canodd y plant yn wych ac roedd eu hyder yn glodwiw. Rydyn ni fel staff yn falch iawn ohonynt ac yn benderfynol y byddwn yn gweld rhai ohonynt ar lwyfan y 'West End' ryw ddydd!

Dathlu'r Nadolig yn yr adran uwchradd
Yn ôl ein harfer diweddar, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr adran uwchradd yn Eglwys Gatholig Meisgyn eleni. Bu'n gyfle hyfryd i fyfyrio ar wir ystyr y Nadolig ac i wrando ar dalentau y disgyblion uwchradd. Bu'n noson hyfryd ar ddiwedd tymor hynod o brysur. Diolch yn fawr i Mr Hywel a Miss Rowlands am yr holl baratoadau.

Tripiau Nadolig yr Adran Gynradd
Aeth disgyblion Blwyddyn 1, 2 a 3 i weld sioe 'Y Dywysoges a'r Bysen Fechan Fach' yn Theatr y Sherman yng Nghaerdydd eleni. Roedden nhw wrth eu boddau yn gwylio'r actorion yn perfformio o'u blaenau! Diolch yn fawr i'r athrawon am drefnu. Aeth plant y Feithrin a'r Derbyn i weld Sion Corn ym Mharc Treftadaeth y Rhondda. Teithion nhw mewn lifft er mwyn cyrraedd dan ddaear a cherddon nhw'n ofalus ar hyd y llwybr hudol er mwyn cyrraedd y groto. Braf gweld gwên ar wynebau'r plant wrth iddynt dderbyn anrheg arbennig gan Sion Corn! Ho ho ho!

Llwyddiant ysgubol Siarad Cyhoeddus y Rotari
Llongyfarchiadau gwresog i Poppy Sayer bl 12, Harriet John a Gwynfor Dafydd o flwyddyn 13 ar eu llwyddiant arbennig yng

nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg y Rotari yn ddiweddar. Enillodd bob un ohoynt y wobr gyntaf yn eu categori ac felly yn naturiol, nhw oedd y tim buddugol. Byddant yn cynrychioli yr ardal nawr yn y rownd nesaf. Pob lwc i'r tri ohonoch a diolch i Mrs Carys Lewis am hyfforddi.

Gwobr Efydd Gofalwyr Ifanc
Rydym yn ymfalchio yn y ffaith inni ennill statws efydd ar gyfer ein hymdrechion i gynnal a chefnogi gofalwyr ifanc yn yr ysgol. Derbyniwyd y wobr mewn seremoni yn ddiweddar ar ran yr ysgol gan ein cyd-lynydd lles Mrs Janice Cowan a disgybl o flwyddyn 12, Katie Gully.

Noson Agored Llythrennedd a Rhifedd
Yn dilyn llwyddiant y noson i rieni uwchradd a gynhaliwyd ym mis Medi, cynhaliodd staff yr adran gynradd noson agored ym mis Ionawr oedd yn ffocysu ar lythrennedd a rhifedd. Roedd yn gyfle arbennig i rieni yr adran gynradd i glywed am y modd y mae sgiliau rhifedd a llythrennedd y disgyblion yn cael eu datblygu. Rhoddwyd pwyslais, fel yn yr uwchradd, ar y bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni a sut y gall y rhieni helpu yn y cartref. Roedd yn gyfle gwych i'r rhieni i weld yr adnoddau rhagorol sydd yn yr adran ac i gael tro ar ambell dasg rhifedd a llythrennedd!

Eisteddfod yr Urdd 2017
Mae'r momentwm yn dechrau cynyddu! Yn ystod wythnos olaf tymor y Nadolig cynhaliwyd bore sinema i ddisgyblion blynyddoedd 7&8 i godi arian tuag at apêl Eisteddfod 2017 ac ar y 22ain o Ionawr, bu pawb yn rhan o'r dathliad cariad@urdd wrth gyfrannu i'r gronfa trwy wisgo coch, gwyn a gwyrdd. Braf nodi bod Clwb yr Urdd wedi cychwyn yn yr ysgol o dan ofal Leon a hyderwn y bydd nifer o ddisgyblion yn mynychu a mwynhau'r cyfle i gymdeithasu ymhellach y tu hwnt i'r dosbarth trwy gfyrwng y Gymraeg. Mynychodd grwp o ddisgyblion weithdy yng Ngholeg Penybont yn ystod y mis er mwyn cyfrannu syniadau at gywydd croeso Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2017. Bu'n brofiad gwych i'r disgyblion wrth iddynt gael eu harwain mewn gweithdy gyda Dr Mererid Hopwood. Mererid a Gwynfor Dafydd o flwyddyn 13 fydd yn gyd-gyfrifol am y cywydd croeso gorffenedig.



Gweithdy Penybont

Newyddion Chwaraeon
Llwyddiant ym myd Pêl-rwyd, merched bl 10 a 13
Llongyfarchiadau i'r merched canlynol sydd wedi eu dewis o fewn eu grwp oedran priodol i sgwad pêl-rwyd canolfan hyfforddi datblygiad Cymoedd Morgannwg – Carys Llewellyn, Cerys Reynolds a Layla Davies, Rhianydd Reynolds a Celyn Brooks. Mae Carys a Cerys hefyd yn nhîm dan 16 Cymoedd Morgannwg a byddant yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cymru gyfan ddiwedd mis Ionawr yng Nghaerdydd.

Dyfodol disglair ym myd Gymnasteg

Mae Jamie Barrington-Williams yn gwneud enw iddo'i hun ar hyn o bryd gyda'i gampau ym myd Gymnasteg. Ef yw pencampwr Llawr a Vault Cymru o dan 16 oed. Dim ond ers tair blynedd y bu Jamie yn hyfforddi ac mae eisies wedi profi cryn lwyddiant. Cer amdani Jamie!

Llwyddiant Traws gwlad

Llongyfarchiadau i Evan Griffiths a Gethin Evans o flwyddyn 8 ar berfformiadau arbennig yng nghystadleuaeth traws gwlad Cymru cyn y Nadolig. Rhedodd y ddau yn ardderchog gan gyfrannu yn wych i fuddugoliaeth eu tim nhw sef De Cymru.

Gwobr Presenoldeb 7M
Gwobrwyir y dosbarth sydd â'r presenoldeb gorau bob tymor. Dosbarth 7M enillodd y wobr yn ystod Tymor y Nadolig ac aethant i fwynhau yn Bowlplex, Nantgarw. Tybed pwy fydd ar y blaen y tymor nesaf?

Ponty yn herio am y tri thlws

Mae Clwb Rygbi Pontypridd yn parhau i frwydro am lwyddiant mewn tair cystadleuaeth wrth wynebu cyfnod tyngedfennol o'r tymor.

Mae'r nod o amddiffyn coron Uwch-Gynghrair y Principality yn dal o fewn golwg Pontypridd, gyda Cross Keys a Llanymddyfri yn cynnig gwrthwynebiad gwirioneddol i'w gobeithion. Bydd gemau mawr i'w chwarae wrth i Ponty deithio i wynebu Llanymddyfri oddi cartre ddydd Sadwrn y 13eg o Chwefror, a chroesawu Cross Keys i Heol Sardis ar Sadwrn y 5ed o Fawrth.

Mae Ponty eisoes wedi sicrhau lle yn rowndiau go-gyn-derfynnol Cwpan Her Foster's, a hynny ar ôl gorffen ar frig y tabl yn Grŵp 2. Roedd y grŵp yn un hynod gystadleuol, ac roedd ffawd Ponty yn y fantol wrth i Aberafan ymweld ar Sadwrn 23ain o Ionawr.

Mewn gêm agos a chyffrous, Pontypridd aeth a'r fuddugoliaeth o 16pt i 14 gan orffen ar frig y tabl gyda dau gais yn cael eu sgorio gan y blaenasgellwr profiadol Wayne O'Connor.

Yn rownd gyntaf Cwpan SWALEC ar y 9fed o Ionawr teithiodd Pontypridd i Abertawe i wynebu gem anodd yn erbyn tîm sy'n ail yn y Bencampwriaeth ac yn herio am ddyrchafiad i'r Uwch Gynghrair. Ar ddiwrnod stormus gyda'r glaw yn cwympo'n ddi-baid ar faes St Helen, llwyddodd Ponty i sicrhau buddugoliaeth o 11pt i 18.

Bydd gêm gartref i'w chwarae yn awr yn yr ail rownd, unwaith eto yn erbyn tîm o'r adran islaw, gyda Bridgend Athletic yn ymweld â Heol Sardis ddydd Sadwrn y 6ed o Chwefror.

Gyda chyfres o chwe buddugoliaeth yn olynol hyd at y gêm yn erbyn Aberafan yn y Cwpan Her, mae Ponty wedi profi y gallant herio am y tri thlws sydd ar gael iddynt y tymor hwn.
Mae ffordd hir i fynd hyd ddiwedd y tymor, a nifer o gemau heriol eto i'w chwarae, ond mae'r nod o gipio coron yr Uwch Gynghrair, Cwpan SWALEC a'r Cwpan Her yn dal yn fyw i Bontypridd.

Am fwy o wybodaeth am hynt a helynt Clwb Rygbi Pontypridd galwch mewn i'r wefan : www.ponty.net

Cyngerdd i'w Chofio

Doedd dim un sêt sbâr yn Eglwys Sant Catherine, Pontypridd ar gyfer Cyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth ar 19 Rhagfyr. O dan arweiniad Steffan Watkins a'u cyfeilyddes Branwen Evans dewiswyd darnau o'r Meseia a nifer o gytganau cyfarwydd gan Gôr Godre'r Garth i roi naws arbennig i'r noson. Eu gwesteion oedd Côr y Cwm o dan arweiniad Elin Llywelyn-Williams a'u cyfeilydd Gavin Ashcroft ac roedd y bobl ifanc wedi swyno'r gynulleidfa. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Apêl Pontypridd Eisteddfod yr Urdd 2017.

Mae Côr Godre'r Garth yn cychwyn ar dymor newydd o waith gyda nifer o gyngherddau ar y gweill ac ymweliadau â Gogoledd Cymru a phellteroedd Lloegr. Dewch i ymuno a'r côr am 7.30 bob nos Sul yn Neuadd y Pentref Efail Isaf.